

## **Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2015**

**9.30 – 2.30**

### **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

#### **Yn bresennol:**

##### **Cyfarwyddwyr:**

Andrew Green (Cadeirydd)  
Beth Button, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr  
Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (tan 11.30yb)  
Yr Athro Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol  
Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academiaidd / Deon y Coleg  
Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol  
Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd) (tan 1.00 yp)

##### **Sylwedyddion:**

Amanda Wilkinson, Prifysgolion Cymru (o 11.00yb)  
Kimberley Meringolo, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)

##### **Swyddogion:**

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr  
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd  
Catherine Rees, Ysgrifennydd  
Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd  
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd

##### **Ymddiheuriadau:**

Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol  
Sion Davies, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC (Sylwedydd)  
Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) (Sylwedydd)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
<b>1. Croeso a chyflwyniad</b>	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriad i'w gynnwys yn y cofnodion		
<b>2. Datganiadau o ddiddordeb</b>	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.  2.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb heblaw'r rhai sydd eisoes wedi eu cofnodi		
<b>3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 17 Mehefin 2015</b>	3.1 <u>Eitem 12.2.</u> Nodwyd y dylid cynnwys geiriad datganiad y Coleg yn llawn ynglŷn â mater Neuadd Pantycelyn, a nodi mai'r Athro Iwan Davies a gynigodd y geiriad canlynol:  'Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol - wedi derbyn a thrafod papur gan y cyfarwyddwr sy'n cynrychioli myfyrwyr o'r enw <i>Pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o gau Neuadd Breswyl Pantycelyn,</i> - yn nodi'r pryder a fynegir yn y papur, - yn cefnogi'r egwyddor o ddarparu awyrgylch a phrofiad addas i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg ym mhob prifysgol yng Nghymru'.  3.2 Yn amodol ar yr uchod, derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2015.		
<b>4. Derbyn ac ystyried cofnodion</b>	4.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd		

<b>cyfarfod arbennig 23 Medi 2015</b>	ar 23 Medi 2015		
<b>5. Gohebiaeth</b>	5.1 Nid oedd unrhyw ohebiaeth ar gyfer y Bwrdd Cyfarwyddwyr		
<b>6. Materion Cyfansoddiadol</b>	6.1 Cyflwynwyd y trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol (Llys a'r Cynulliad Blynyddol). Fe'u cynhelir ar 2 Mawrth 2016 yn y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd. Bydd y Llys yn dechrau am 3.30 a'r Cynulliad Blynyddol yn dechrau am 6.00. Cynhelir cyfarfod y Bwrdd y diwrnod canlynol ar 3 Mawrth 2016.		
<b>7. Sesiwn ar gyfrifoldeb ac atebolrwydd cyfarwyddwyr gan gyfreithwyr y Coleg, Capital Law</b>	7.1 Cafwyd sesiwn ar gyfrifoldeb ac atebolrwydd cyfarwyddwyr gan Iestyn Morris a Sion Tudur, o gyfreithwyr y Coleg, Capital Law. Pwysleisiwyd difrifoldeb cyfrifoldebau'r aelodau fel cyfarwyddwyr cwmni ac fel ymddiriedolwyr elusen. Dosbarthwyd dogfennaeth yn cynnwys gwybodaeth gefnogol ac anogwyd y cyfarwyddwyr i ymweld â gwefan y Comisiwn Elusennol.  Diolchodd y Cadeirydd i'r gyfreithwyr am sesiwn hyfforddi ddifyr ac addysgiadol.		
<b>8. Enwebiadau ar gyfer Cymrodwr er Anrhydedd 2016  (CYFRINACHOL)</b>	8.1 Cymeradwywyd gwahodd Rhian Huws Williams, Ned Thomas a Geraint Talfan Davies i dderbyn Cymrodoriaeth adeg y Cynulliad Blynyddol yng Nghaerdydd ar 2 Mawrth 2016. Pwysleisiwyd bod yr enwau'n parhau'n gyfrinachol nes y cyhoeddiad swyddogol.		
<b>9. Materion Cyllid</b>	9.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Cofrestrydd, Dr Dafydd Trystan, ar y cyrifon archwiliedig a nodwyd ei fod yn archwiliad glân. Nodwyd ymhellach bod asedau wrth gefn gan y Coleg er mwyn rhoi sicrwydd mewn cyfnod cyllidol ansicr yn ystod y blynyddoedd		

	<p>nesaf. Cadarnhawyd y cyfrifon archwilledig gan y Cyfarwyddwyr.</p> <p>9.2 Cyflwynwyd cyllideb ddrafft ar gyfer 2016/17 gan Dr Dafydd Trystan, a nodwyd bod nifer o arbedion wedi eu gwneud. Nodwyd bod y broses o gynllunio'r flwyddyn 2016/17 yn digwydd ar hyn o bryd.</p> <p>9.3 Nodwyd y penderfyniad i gyllido 10 o ysgoloriaethau ymchwil ar lefel 50% yn hytrach na chyllido hanner y nifer yn llawn.</p> <p>9.4 Nodwyd y byddai cyfle i gadarnhau'r gyllideb yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol.</p> <p>9.5 Cadarnhawyd y gyllideb ddrafft gan y cyfarwyddwyr ac nid oedd unrhyw gwestiynau. Pwysleisiwyd yr angen i'r cyfarwyddwyr i gyd-berchnogi'r penderfyniadau a sicrhau balans rhwng gwahanol elfennau'r gyllideb.</p>		
<p><b>10. Derbyn adroddiad llafar y gweithgor a benodwyd i ystyried adolygiadau posibl i Gyfansoddiad y Coleg</b></p>	<p>10.1 Derbyniwyd adroddiad llafar gan yr Athro Iwan Davies, Cadeirydd y Gweithgor a sefydlwyd i adolygu'r Cyfansoddiad. Adroddodd bod y Gweithgor Cyfansoddiadol wedi cyfarfod ar 30 Gorffennaf 2015 i ystyried diweddariadau ac addasiadau i Femorandwm y Coleg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytunwyd y bydd angen diweddaru yn helaeth ar adrannau sydd yn cyfeirio at sefydlu'r Coleg, gan nad ydynt yn berthnasol bellach, ac i rai cymalau nad ydynt yn adlewyrchu arfer da cyfraith cwmnïau – bydd modd manylu ar y rhain yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd</li> <li>• Nodwyd nad oedd y gweithgor wedi derbyn y cynnig Beth Button i ychwanegu cyfarwyddwr arall i'r Bwrdd sef Cyfarwyddwr Annibynnol yn cynrychioli myfyrwyr, gan y</li> </ul>		

	<p>byddai'r nifer o gyfarwyddwyr yn cynyddu ac yn anwastad. Pwysleisiwyd geiriad y Cyfansoddiad mai Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol Cymru sydd yn enwebu person y maent hwy yn ystyried yn gymwys trwy eu prosesau eu hunain, ac yna bod y person a enwebwyd yn mynd trwy'r broses benodi gan y Pwyllgor Penodiadau. Mae hyn yn gyson gyda'r dull y penodir cyfarwyddwyr eraill.</p> <p>Nododd Beth Button ei bod hi'n hapus gyda'r penderfyniad, gan fod llais y myfyrwyr yn cael ei gyfleu gan y cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr, ond y byddai'n falch petai'r gweithgor yn cadw'r mater ar y bwrdd i'w drafod eto pan fyddai'n briodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodwyd bod y gweithgor wedi argymhell hyfforddiant i'r cyfarwyddwyr ar eu dyletswyddau, a bu i'r cyfryw hyfforddiant ddigwydd yn ystod cyfarfod y Bwrdd.</li> </ul>		
<p><b>11. Adolygiad allanol o ysgoloriaethau'r Coleg: derbyn ac ystyried yr argymhellion (BC/15/03/17)</b></p>	<p>11.1 Cafwyd cyflwyniad llafar ar yr adroddiad a'r cyd-destun cyllidol gan y Cofrestrydd, Dr Dafydd Trystan.</p> <p>Nodwyd yn benodol yr argymhellion strategol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystyried cynyddu'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer ysgoloriaethau. Nodwyd nad yw'r cytundeb presennol gyda Llywodraeth Cymru yn caniatáu hyn, rhoddir ystyriaeth i hyn yn y dyfodol gan ddefnyddio adnoddau'r Coleg os bydd cyllid yn caniatáu.</li> <li>• ail-gydbwysu rhwng nifer y Prif Ysgoloriaethau a'r Ysgoloriaethau Cymhelliant, fel bod modd dyfarnu mwy o Ysgoloriaethau Cymhelliant. <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu proses ddyfarnu unffurf ar draws y prifysgolion, i'w adolygu yn dilyn adolygiad yr archwilwyr mewnol o strwythur canghennau'r Coleg.</li> </ul> </li> <li>• newid amseru dyfarnu rhai o'r Ysgoloriaethau Cymhelliant.</li> </ul>		

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfyngu nifer yr ysgoloriaethau a ddyfernir i rai meysydd.</li> </ul> <p>Cymeradwywyd yr argymhellion i gyd fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod ystyriaeth yn cael ei roi i amrywio'r gyllideb ar gyfer ysgoloriaethau israddedig yn y dyfodol os yw trefniadau cyllido'r Coleg yn caniatáu hynny.</li> <li>• Bod lleihad pellach yn nifer y Prif Ysgoloriaethau er mwyn cynnig cynifer â phosibl o Ysgoloriaethau Cymhelliant.</li> <li>• Bod y trefniadau ar gyfer dyfarnu Prif Ysgoloriaethau yn parhau fel y maent ar hyn o bryd ond bod y mater yn cael ei ail ystyried yn dilyn derbyn adroddiad yr archwilwyr mewnol ar strwythurau canghennau'r Coleg.</li> <li>• Bod trefn o osod dau ddyddiad cau ar gyfer Ysgoloriaethau Cymhelliant yn cael ei threialu am flwyddyn yn y lle cyntaf, ac yn cael ei hadolygu yn dilyn hynny. Cyflwynir hyn cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.</li> <li>• Bod trefn o osod uchafswm ar nifer Ysgoloriaethau Cymhelliant i'w dyfarnu i adrannau academiaidd unigol yn cael ei threialu am flwyddyn yn y lle cyntaf, ac yn cael ei adolygu yn dilyn hynny. Cyflwynir hyn cyn gynted ag y bo hynny yn ymarferol bosibl.</li> <li>• Bod y swyddogion yn cael eu hawdurdodi i weithredu ar yr argymhellion eraill</li> </ul>		
<p><b>12. Materion y Cadeirydd</b></p>	<p><i>Ar y pwynt hwn, ymunodd Amanda Wilkinson, Prif Weithredwr Prifysgolion Cymru â'r cyfarfod.</i></p> <p>12.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Cadeirydd, Andrew Green, ar drafodaethau'r cyfarwyddwyr yn eu cyfarfod yn Llandrindod ym mis Medi. Nodwyd pum pwynt yn benodol:</p>		

	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bod angen sicrhau gwell dealltwriaeth o waith a llwyddiannau'r Coleg ymysg gwahanol gynulleidfaoedd, yn cynnwys Prifysgolion Cymru, y sefydliadau, y Llywodraeth a'r cyhoedd yn gyffredinol. Tynnodd sylw'r cyfarwyddwyr at y ffeithluniau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar ar Twitter a Facebook. Nododd yn benodol y ffaith bod costau gweinyddol y Coleg yn rhan fach o'r gwariant, a bod y Coleg yn cwrdd â'i dargedau ar ran y Llywodraeth.</li> <li>2. Bod modelau posibl ar gyfer y dyfodol wedi eu gwyntyllu gan gynnwys model lle mae'r prifysgolion yn cymryd cyfrifoldeb dros ddarpariaeth addysgu fewnol ond y Coleg yn gyfrifol am yr holl agweddau eraill, gan gynnwys cynllunio academaidd cenedlaethol, pennu blaenoriaethau strategol, datblygu adnoddau, darparu gwasanaethau.</li> <li>3. Bod angen parhau i siarad â'r Llywodraeth, CCAUC ,Prifysgolion Cymru a sefydliadau unigol er mwyn lleihau'r ansicrwydd a chael datrysiad.</li> <li>4. Bod angen i gadw golwg manwl ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sefydliadau.</li> <li>5. Goblygiadau unrhyw fodel newydd ar sut bydd y Coleg yn cynllunio'n academaidd.</li> </ol> <p>12.2 Nodwyd bod llythyrau at y sefydliadau wedi eu paratoi ynglŷn â sefyllfa'r swyddi sydd yn dod i ben yn Haf 2016, gan gyfeirio at barhad y ddarpariaeth gydweithredol genedlaethol.</p> <p>12.3 Cafwyd trafodaeth am wahanol fodelau posib ar gyfer cyllido'r Coleg i'r dyfodol. Nododd Amanda Wilkinson gefnogaeth ac ymrwymiad y sector i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>12.4 Nodwyd bod angen codi a chynnal ymwybyddiaeth am gyflawniadau'r Coleg ac am natur genedlaethol y gwaith. Nodwyd y byddai'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15 yn arf bwysig i dynnu sylw at yr holl waith pwysig a gyflawnwyd.</p>		
--	--	--	--

	<p>Pwysleisiwyd bod cyfathrebu negeseuon positif am y Coleg yn allweddol, yn cynnwys cyfarfodydd gydag is-gangellorion ac eraill.</p> <p>12.5 Nodwyd bod y Coleg eisoes yn ymwybodol iawn o'r angen i wneud arbedion, ac eisoes wedi adnabod a gweithredu arbedion.</p> <p><i>Ar y pwynt yma, gadawodd yr Athro Iwan Davies ac Amanda Wilkinson y cyfarfod.</i></p>		
<p><b>13. Adroddiad y Prif Weithredwr</b> <b>(BC/15/03/11)</b></p>	<p>13.1 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr.</p> <p>13.2. Yng nghyd-destun yr ansicrwydd ariannol presennol argymhellwyd ymestyn cytundebau cyllido'r prifysgolion sydd yn dod i ben yn ystod Haf 2016 hyd at Haf 2017 fan pellaf. Cytunwyd i'r argymhelliad.</p> <p>13.3 Wrth i'r cyfnod o bum mlynedd ar gyfer cyllido drwy'r Coleg ddod i ben yn achos swyddi unigol, nodwyd y byddai'r Coleg yn sefydlu trefn ar gyfer monitro unrhyw newidiadau, dros amser, yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Byddai'r Coleg yn ystyried sut i ymdrin â sefyllfaoedd lle byddai'r ddarpariaeth i fyfyrwyr yn lleihau.</p> <p>13.4 Nodwyd y byddai ysgoloriaethau ymchwil yn cael eu cynnig i gychwyn yn 2016/17.</p> <p>13.5 Nodwyd y byddai swyddi Swyddog Cangen a ddaw yn wag yn cael eu llenwi ond nad oes modd gwarantu parhad y grantiau tu hwnt i 31 Gorffennaf 2017.</p> <p>13.6 Nodwyd nad oedd costau model newydd ar gyfer achredu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith wedi cyrraedd gan CBAC mewn pryd i'r cyfarfod Bwrdd ac felly nad oedd modd cyflwyno argymhelliad</p>		



	<p>ar hyn o bryd.</p> <p>13.7 Nodwyd bod angen pwysleisio'r holl weithgareddau a gynhelir gan y Coleg a bod angen hefyd bod yn eglur nad yw'r rhan helaeth o rhain yn gostau cynnal y Coleg, ond yn hytrach yn weithgareddau yn bennaf yn y sefydliadau. Dosbarthwyd taflen yn nodi'r costau o dan benawdau. Cafwyd cyflwyniad gan Dr Dylan Phillips i un o'r gweithgareddau hyn, sef y rhaglenni hyfforddiant academaidd. Nodwyd yn benodol bod angen lledaenu'r neges bod y rhaglenni hyn ar gael i bawb a'u bod yn llwyddo.</p> <p>13.8 Derbyniwyd Cynllun Gweithredu'r Coleg a nodwyd y bwriad i gynnal cangen y Coleg ym Mhrifysgol Glyndŵr.</p> <p>13.9 Nodwyd bod angen cymeradwyo'r Strategaeth Ymchwil gan nad oedd cworwm pan drafodwyd y Strategaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ar 17 Mehefin. Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r Strategaeth Ymchwil.</p>		
<b>14. Adroddiadau gan Gyfarwyddwyr</b>	14.1 Nid oedd unrhyw adroddiadau gan y cyfarwyddwyr		
<b>15. Pwyllgor Archwilio a Risg</b>	<p>15.1 Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2015 a chafwyd adroddiad llafar ar y cyfarfod gan y Cadeirydd, Geraint James.</p> <p>15.2 Diolchwyd i aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Gareth Eyres a'r Athro Jaqui Hare, am eu gwaith. Nodwyd bod angen am aelodau ychwanegol yn parhau a gwahoddwyd y cyfarwyddwyr i gynnig enwau.</p>		
<b>16. Y Gofrestr Risg</b>	15.1 Nodwyd bod y Gofrestr Risg wedi ei rhannu i risgiau strategol a risgiau gweithredol ac mai trafod y risgiau strategol oedd prif		

<p><b>(BC/15/03/15)</b></p>	<p>swyddogaeth y cyfarwyddwyr. Gwahoddwyd sylwadau hefyd ar y risgiau gweithredol.</p> <p>15.2 Cafwyd trafodaeth ar y Gofrestr Risg a nodwyd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Risg 12/09 - Bod gwahoddiad i'r cyfarwyddwyr i fynegi barn mewn cyfarfodydd.</li> <li>• Risg 15/01 - Bod angen aralleirio rhif 15/01 er mwyn nodi'r risg penodol: 'Darpariaeth yn dirywio oherwydd bod swyddi allweddol yn dod i ben a bod sefydliadau yn cymryd neu yn peidio â chymryd penderfyniadau allweddol'.</li> </ul> <p>15.3 Cadarnhawyd y Gofrestr Risg.</p>		
<p><b>17. Bwrdd Academaidd</b></p>	<p>17.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Deon, Dr Hefin Jones, ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2015.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodwyd bwriad y Bwrdd Academaidd i barhau i ddatblygu Cynllun Academaidd newydd i adlewyrchu esblygiad y Coleg.</li> <li>• Nodwyd bod rhai adolygiadau pynciol wedi cael eu gohirio yn wyneb yr ansicrwydd cyllidol, ond nodwyd hefyd y bwriad i gwblhau adolygiadau sydd eisoes ar y gweill a rhai pynciau strategol bwysig.</li> <li>• Nodwyd y bwriad i adolygu pob gweithgaredd academaidd maes o law yn cynnwys prosiectau.</li> <li>• Nodwyd bod y Bwrdd Academaidd yn croesawu ymwneud y Coleg gyda Phafiliwn Gwyddoniaeth yr Eisteddfod Genedlaethol.</li> <li>• Nodwyd bod y Bwrdd Academaidd wedi derbyn adroddiadau ar</li> </ul>		

	<p>Ehangu Mynediad gan Delyth Murphy, ac ar adnodd Mwy na Geiriau (maes Iechyd) gan Gwerfyl Roberts.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodwyd bod cynrychiolwyr myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd yn cyfranogi'n dda, eu bod yn dewis eu pwnc eu hun er mwyn cyflwyno papur. Nodwyd mai argaeledd darlithwyr cyfrwng Cymraeg oedd y pwnc yn y cyfarfod hwn, ac mai cyfathrebu fyddai'r pwnc yn y cyfarfod nesaf.</li> <li>• Nodwyd bod nifer o wobrau yn cael eu cynnig gan y Coleg erbyn hyn a bod prosesau'r gwobrau wedi eu nodi ar ddogfen bwrpasol gan swyddogion y Coleg.</li> <li>• Nodwyd dymuniad y Bwrdd Academaidd i weld Prifysgol Glyndŵr yn datblygu mwy, a bod ymdrechion yn cynyddu i ddatblygu'r berthynas.</li> <li>• Mynegodd y Deon ei ddiolch i swyddogion y Coleg am drefniadau Taith y Deon.</li> <li>• Nododd yr Athro Jaquie Hare bod yr ymweliadau a'r cyfarfodydd gyda swyddogion ac aelodau'r gangen gan y Deon yn werthfawr, a bod Taith y Deon i'w gymeradwyo.</li> </ul>		
<p><b>18. Materion yn codi o gofnodion 17 Mehefin 2015 a 23 Medi 2015</b></p>	<p>18.1 <u>17 Mehefin 2015</u></p> <p><u>Eitem 8.5 Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon.</u> Cafwyd diweddariad ar y cynllun gan Dr Gwyn Lewis a nodwyd bod ansicrwydd yn parhau ynglŷn â'r hyn fydd yn digwydd yn dilyn y cyfnod peilot. Nodwyd y byddai cyfarfod ym mis Ionawr rhwng HEFCW, y Llywodraeth a'r Coleg i drafod hyn.</p> <p>18.2 <u>23 Medi 2015</u></p>		

	Nid oedd unrhyw faterion yn codi.		
<b>19. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf</b>	<p>19.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 3 Mawrth 2016 ym Mhrifysgol Caerdydd.</p> <p>19.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i staff Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod.</p>		